

## Bwrdd Cymwysterau Cymru

### QWB34 - Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Medi 2020 trwy gyfrwng Microsoft Teams

#### Mynychwyr:

David B Jones (Cadeirydd), Arun Midha, Anne Marie Duffy, Angela Maguire-Lewis, Caroline Burt, Claire Morgan, David Jones, Isabel Nisbet, Jayne Woods, Philip Blaker, Robert Lloyd Griffiths.

#### Yn Bresennol:

Jo Richards (JR) (rhannol), Alison Standfast (AS), Kay Powell (EKP), Cassy Taylor (CT), Emyr George (EG), Jo Valentine (JV) - Llywodraeth Cymru.

Denver Davies (DD) – Eitem 5, Kerry Davies (KD) – Eitem 5, Tom Anderson (TA) – Eitem 6, Kerry Price (KP) – Eitem 7

**Ymddiheuriadau:** Ellen Donovan

#### Eitem Bwrdd Caeddig

Papur wedi'i rifo ar wahân

Mae papurau a chofnodion yr eitem hon yn sensitif ac yn cael eu cofnodi mewn man arall.

#### 1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
- 1.2 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant y tu hwnt i'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y gofrestr.
- 1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ellen Donovan.

#### 2. Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf a 4 Medi

- 2.1 Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai cofnodion terfynol y cyfarfodydd Eithriadol yn cael eu dosbarthu i'r aelodau.
- 2.2 Ystyriwyd cofnodion y cyfarfod ar 16 Gorffennaf ac, yn amodol ar fân newidiadau, fe'u cadarnhawyd fel cofnod cywir o'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw gamau gweithredu na materion yn codi.
- 2.3 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Medi fel cofnod cywir o'r cyfarfod yn amodol ar newid mân. Nid oedd unrhyw gamau i'w datrys, ac roedd cofnodion y cyfarfodydd cynharach wedi'u dosbarthu.

## **Crynodeb:**

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod ar 16 Gorffennaf yn amodol ar ddiwygiadau y cytunwyd arnynt.
- ii. Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod Eithriadol ar 4 Medi.
- ii. Nododd y Bwrdd fod yr holl gamau wedi'u cwblhau.

## **3. Diweddariad y Cadeirydd**

- 3.1 Dywedodd y Cadeirydd fod cyfarfod wedi'i gynnal rhwng y Cadeirydd, PB a JR a'r Gweinidog Addysg a swyddogion Llywodraeth Cymru ar 9 Medi i ystyried opsiynau ar gyfer Haf 2021. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y dull cadarnhaol a chydweithredol a oedd yn parhau.
- 3.2 Adroddodd y Cadeirydd fod y gwaith o benodi aelodau newydd i'r Bwrdd yn mynd rhagddo. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau hynny a oedd wedi darparu clipiau fideo i gefnogi'r broses recriwtio. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â'r broses recriwtio.
- 3.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gynnal eu hadolygiadau perfformiad a thrafododd ei bapur ar yr adborth o'r adolygiadau.
  - Byddai'r Aelodau'n croesawu dull gweithredu rhithwir/wyneb yn wyneb cyfunol yn y dyfodol, gyda mwy o le ar yr agenda ar gyfer trafodaeth agored.
  - Tynnwyd sylw at gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid fel maes o ffocws yn y dyfodol a nodwyd bod disgwyl i Gyfarwyddwr Cyfathrebu newydd ymuno â Cymwysterau Cymru ym mis Hydref.
  - Roedd nifer o aelodau wedi nodi'r angen i ddatblygu strategaeth ddigidol wrth asesu.
  - Gan y byddai pum aelod o'r Bwrdd yn gadael yn ystod 2021, dylid casglu eu profiad a'u safbwyntiau. Dywedodd y Cadeirydd fod mwy o ffocws ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth recriwtio aelodau newydd o'r Bwrdd. Nodwyd bod y sefydliad wedi ymuno â rhaglen Chwarae Teg a fyddai hefyd yn rhoi mynediad at hyfforddiant.

Byddai'r broses ar gyfer adolygiadau aelodau'r Bwrdd yn cael ei hystyried a byddai cynigion yn cael eu rhannu ym mis Ionawr.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r awgrymiadau a wnaed gan yr aelodau yn cael eu datblygu a'u trafod eto yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.

## **Crynodeb:**

- i. EKP i gyfweld ag aelodau'r Bwrdd sy'n ymadael i gofnodi ac adrodd yn ôl ar safbwyntiau i'r Bwrdd
- ii. Nododd y Bwrdd adroddiad y Cadeirydd

#### 4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1 Cyflwynodd Philip Blaker (PB) ei adroddiad Prif Swyddog Gweithredol. Dywedodd PB wrth y Bwrdd fod yr adroddiad blynyddol yn cael ei ddrafftio. Gofynnir i'r Aelodau adolygu adrannau o'r adroddiad blynyddol drafft y tu allan i'r cyfarfod. Byddai'r adroddiad blynyddol yn cael ei osod ar 18 Tachwedd ar ffurf electronig yn unig ar ôl cytuno ag ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Cytunwyd y byddai'r aelodau'n cael cyfle i adolygu'r adroddiad blynyddol drafft a dirprwywyd y gymeradwyaeth derfynol i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cadeirydd.
- 4.2 Ystyriwyd ymhellach yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol wrth i gynllunio manwl gael ei wneud. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlyniad yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Tachwedd.
- 4.3 Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn dilyn ymadawiad Kate Stokes-Davies, fod Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid newydd wedi'i benodi ac y byddai'n dechrau tua diwedd mis Hydref. Diolchwyd i Claire Roberts am ymgymryd â'r rôl yn y cyfamser.
- 4.4 Nododd aelodau'r Bwrdd fod llwyddiant cwblhau'r prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar ôl yr holl heriau a wynebwyd, yn gyflawniad sylweddol i bawb a oedd yn gysylltiedig.
- 4.5 O ran staffio, mynegodd yr aelodau bryder am les staff ac a fyddai yna ddychwelyd i weithio yn y swyddfa. Dywedodd PB fod staff yn gweithio'n dda o gartref a bod cyfarfodydd tîm a digwyddiadau traws-drefniadaeth yn cael eu cynnal. Roedd cymorth allanol hefyd ar gael i'r staff. Cydnabu PB y byddai newidiadau tymor hwy i ffyrdd o weithio ac roedd hyn yn cael ei adolygu. Roedd gweithgor ar gyfer dychwelyd i'r swyddfa wedi'i sefydlu. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r undeb. Ychwanegodd AS fod uwch swyddogion yn 'cadw llygad' ar gydweithwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain, a bod staff yn siarad yn 'rhithiol'.

#### **Crynodeb:**

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a diolchwyd iddo am ei ddiweddariad.
- ii. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r aelodau'n adolygu adrannau o'r adroddiad blynyddol drafft yn dilyn y cyfarfod ac yn dirprwyo'r gymeradwyaeth derfynol i'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd.

#### 5. Haf 2021

- 5.1 Ymunodd JR â'r cyfarfod a chyflwynodd yr eitem ar Haf 2021. Esboniodd JR y dull sy'n cael ei ddefnyddio. Nid oedd y cylch gorchwyl a'r llwybrau at wneud penderfyniadau wedi'u cwblhau eto. Roedd Bwrdd Rheoli mewnol 2021, Gweithgor 2021 a Grŵp Rhanddeiliaid 2021 wedi'u sefydlu.

Roedd cyfreithwyr yn mynychu Bwrdd Rheoli 2021 a chafwyd cyngor ar rôl Grŵp Rhanddeiliaid 2021. Amlinellodd CR aelodaeth grŵp rhanddeiliaid Cymwysterau Cymru a dywedodd fod disgwyl i'r cyfarfod cyntaf gael ei gynnal ar 28 Medi.

- 5.2 Esboniodd JR fod Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnull grŵp rhanddeiliaid a bu rhywfaint o drafodaeth i osgoi unrhyw orgyffwrdd rhwng y grŵp hwn a grŵp rhanddeiliaid newydd Cymwysterau Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn sefydlu grŵp polisi a oedd yn dwyn ynghyd eu harweinwyr polisi o bob adran. Tynnodd JR sylw at yr angen am eglurder ynghylch ble y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud.
- 5.3 Dywedodd JV fod y strwythurau llywodraethu'n cael eu cytuno gyda'r Gweinidog. Roedd cymwysterau galwedigaethol hefyd yn cael eu hystyried i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r hyn a fyddai'n cael ei gyflwyno i ba grŵp. Dywedodd JV fod yna sgysiau rheolaidd â JR. Roedd gan JV aelod newydd yn ei thîm i ymdrin ag ymgysylltu â'r adolygiad annibynnol, i oruchwylio llywodraethu ac osgoi dyblygu. Ychwanegodd JR fod rheoleidd-dra'r cyfarfodydd a'r rolau, y cyfrifoldebau a'r prosesau gwneud penderfyniadau, yn cael eu cwblhau a byddent yn cael eu rhannu â'r Bwrdd. Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i fod yn glir ynghylch cyfrifoldebau.
- 5.4 Roedd safbwynt y dysgwr yn cael ei gynnwys yng ngrŵp rhanddeiliaid Cymwysterau Cymru a thrwy ymgysylltu â'r Comisiynydd Plant.
- 5.5 Esboniodd PB, ar ôl ystyried yn ofalus, y byddai PB yn cadeirio Grŵp Rhanddeiliaid 2021 Cymwysterau Cymru. Byddai'n ofynnol i randdeiliaid gytuno i gyfrinachedd y cyfarfodydd a byddent yn cynnig barn i lywio'r broses o wneud penderfyniadau, nid gwneud penderfyniadau. Gofynnodd yr Aelodau beth fyddai allbwn y grŵp; cadarnhawyd na fyddai cyngor y grŵp yn cael ei gyhoeddi.
- 5.6 Nodwyd mai Bwrdd Rheoli 2021 fyddai'r bwrdd mewnol ac y byddai'n arwain ar ffrydiau gwaith 2021.
- 5.7 Hysbyswyd y cyfarfod o ddechrau'r gwaith gan banel adolygu annibynnol Llywodraeth Cymru ("y Panel"). Roedd gwybodaeth am 2020 wedi'i rhannu â'r Panel ac roedd y cyfarfod cyntaf rhwng Cymwysterau Cymru a'r Panel wedi'i gynnal. Adroddodd PB fod y cyfarfod yn adlewyrchiad lefel uchel ar 2020 a'i fod wedi bod yn ymgysylltiad cyntaf da. Roedd Llywodraeth Cymru a CBAC wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Panel. Dywedodd PB nad oedd y Panel wedi archwilio cymhlethdod y materion eto. Roedd disgwyl cyfarfodydd pellach gyda'r Panel.
- 5.8 Symudodd y Cadeirydd y cyfarfod i'r cais i'r Bwrdd roi arweiniad i'r weithrediaeth ar argymhellion i'r Gweinidog ar gyfer 2021. Eglurodd y Cadeirydd wrth yr aelodau bod gofyn iddynt ystyried sut y dylid asesu cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch; pryd y dylid rhoi cyngor i'r Gweinidog; ac ystyried effaith y newidiadau arfaethedig i'r amserlen arholiadau yn Lloegr.

- 5.9 Cadarnhaodd PB nad oedd unrhyw benderfyniadau'n cael eu ceisio; roedd y weithrediaeth yn gofyn am arweiniad ar y materion penodol a ddygwyd i'r cyfarfod. Roedd rhywfaint o frys mewn perthynas â'r amserlen arholiadau oherwydd cyhoeddiad disgwylidig mewn perthynas â Lloegr.
- 5.10 Cyflwynodd DD y sefyllfa mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol. Adroddodd DD fod Ofqual yn arwain ar Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol a byddai Cymwysterau Cymru a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yn cyd-fynd â'r fframwaith. Roedd cydweithio parhaus gydag Ofqual a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu. Roedd addasiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol Cymru'n unig eisoes wedi'u cytuno a'u cyhoeddi. Roedd addasiadau ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn cynnwys treialu gorchwyl o bell. Mewn ymateb i ymholiadau'r aelodau, eglurodd derfynau'r hyn y gellid ei wneud i ddyfarnu cymwysterau a oedd yn drwydded i ymarfer lle'r oedd yn rhaid dangos cymhwysedd.
- 5.11 Cyflwynodd KD y safbwynt mewn perthynas â chymwysterau cyffredinol fel y nodir ym mhapurau'r cyfarfod. Trafododd yr heriau wrth bennu safonau ar gyfer cyfres mis Tachwedd. Amlinellodd fod gwaith ar gyfer 2021 yn cael ei ddatblygu yn erbyn pedwar amrywiad posibl o ran y math o asesiad a bod materion allweddol fel ymgeiswyr preifat, cydraddoldeb a'r prosesau apelio yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf. Gadawodd JV y cyfarfod ar y pwynt hwn oherwydd ymgysylltiad blaenorol.
- 5.12 Yna cyflwynodd KD y papur ar amserlenni arholiadau, gan nodi bod disgwyl i gyhoeddiad yn fuan gan Loegr ynghylch symud dyddiadau arholiadau yn ôl a gwneud rhai newidiadau i ddiwrnodau canlyniadau. Derbyniodd y Cadeirydd farn yr aelodau.
- 5.13 Trafodwyd amseriad y penderfyniadau ar gyfer Cymru a ledled y tair gwlad. Nododd yr Aelodau y byddai Lloegr yn gwneud ei phenderfyniadau ei hun heb, o reidrwydd, geisio alinio ar draws y gwledydd datganoledig.
- 5.14 Cynigiwyd y dylai Cymwysterau Cymru roi cyngor i'r Gweinidog cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar y dull gorau o asesu. Roedd y penderfyniad hwn ar wahân i unrhyw benderfyniad ar alinio â'r amserlen arholiadau yn Lloegr. Nododd PB y byddai'r oedi arfaethedig i arholiadau yn Lloegr o dair wythnos, pythefnos ar gyfer addysgu a dysgu, yn creu risgiau uchel i'r gallu i gyflawni canlyniadau ar amser.
- 5.15 Cytunodd y Bwrdd fod cyngor ar amserlennu arholiadau ynghlwm wrth fater ehangach cyngor ynghylch a ddylai arholiadau fynd rhagddynt. Cyn ystyried y mater hwn, gofynnodd y Bwrdd am gael y cyflwyniad ar y dadansoddiad o'r Graddau Asesu Canolfannau (GACau) yn 2020.
- 5.16 Rhoddodd TA gyflwyniad ar ganfyddiadau'r dadansoddiad manwl o'r graddau safonedig a Graddau Asesu Canolfannau (GACau) ar gyfer 2020, gan nodi y byddai'r wybodaeth fanwl ar gael ar ôl iddi gael ei rhyddhau fel ystadegau swyddogol.

Dangosodd y dadansoddiad fod y graddau a ddyfarnwyd yn gyffredinol yn fwy hael nag mewn blynyddoedd blaenorol ac y byddai rhai dyfarniadau wedi bod yn annhebygol iawn o fod wedi'u gwneud mewn blynyddoedd blaenorol.

Y prif bryder oedd yr amrywioldeb rhwng gwahanol ganolfannau a olygai, lle'r oedd yn ymddangos bod chwyddiant graddau, nad oedd yn gyson ar draws canolfannau nac ar draws pynciau. Roedd y cyflwyniad yn dangos y dosbarthiad, gan gynnwys safle allanolynnau canolfannau.

- 5.17 Nododd aelodau'r Bwrdd y chwyddiant graddau a ddeilliodd o ddull 2020. Trafododd aelodau'r Bwrdd yr heriau sy'n wynebu dyfarniad 2021, o ystyried bod mwy o darfu wedi bod ar addysgu dysgwyr a pha mor bell y gellid gostwng ffiniau graddau er mwyn cynnal canlyniadau tebyg.
- 5.18 Nododd aelodau'r Bwrdd hefyd fod y profiad mewn gwledydd eraill yn dangos bod cyflwyno asesiad athrawon a chymedroli effeithiol wedi cymryd rhai blynyddoedd i'w weithredu cyn iddo lwyddo.
- 5.19 Gofynnodd y Cadeirydd i bob aelod o'r Bwrdd amlinellu ei ddewis mewn perthynas â threfniadau asesu yn 2021 a'r rhesymau dros hynny. Roedd sawl aelod o'r Bwrdd o'r farn bod dull hybrid o ymdrin ag arholiadau a mathau eraill o asesu yn well; roedd rhai o blaid aros gydag arholiadau, roedd eraill am weld dyfarniadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i asesu gan ganolfannau. Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd yn cytuno na ddylid cael arholiadau ar gyfer TGAU. Roedd y dull a ffefrir ar gyfer Safon Uwch yn llai clir gyda sawl aelod yn dymuno gweld asesiad allanol i ddod â chadernid i'r broses.
- 5.20 Cadarnhaodd y Cadeirydd mai canllaw cyffredinol y Bwrdd oedd peidio â chael arholiadau ar gyfer TGAU na lefelau UG ond datblygu opsiynau i alluogi athrawon i gyflwyno asesiadau cyffredin gyda rhywfaint o farcio mewnol a rhai allanol. Ar gyfer Safon Uwch, y cyngor oedd ystyried opsiynau hybrid, gan gynnwys rhyw elfen o arholiad. Roedd y Bwrdd am symud yn gyflym i gynghori'r Gweinidog er mwyn dangos arweiniad a chaniatáu i ddysgwyr gael sicrwydd yn gynnar. Lle'r oedd y Bwrdd yn cynghori y dylid sefyll arholiadau, yna os bydd Lloegr yn adolygu ei hamserlen arholiadau, yna dylai Cymru gyd-fynd â'r newid ar gyfer ei harholiadau ei hun.

## **6. Cymwys ar gyfer y Dyfodol**

- 6.1 Cyflwynodd EG yr eitem a'r cais i aelodau gymeradwyo dull diwygiedig o ymgynghori ar yr ystod o gymwysterau yn y dyfodol.
- 6.2 Dywedodd EG fod ystyriaeth bellach o gynnydd y prosiect gan fwrdd y prosiect a'r Bwrdd Diwygio wedi arwain at y cais i ddiwygio'r dull ymgynghori fel bod yr ymgynghoriad nesaf yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar yr ystod o gymwysterau ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Ionawr. Byddai ymgynghori ac ymgysylltu ar y paramedrau dylunio a'r dull asesu yn cael eu hystyried y flwyddyn nesaf.

- 6.3 Ystyriwyd yr effaith ar randdeiliaid o rannu'r ymgynghoriad. Dywedodd PB mai'r flaenoriaeth i ysgolion oedd gwybod y pynciau a fyddai'n cael eu cynnig nid y manylion am sut y byddai'r asesiad yn cael ei gynnal.
- 6.4 Eglurodd y Cadeirydd y byddai'r penderfyniad terfynol ar yr ymgynghoriad yn cael ei ddwyn i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd. Esboniodd EG, pe bai'r dull yn cael ei gytuno, y byddai gwaith paratoi'n cael ei wneud ar yr ymgynghoriad diwygiedig a nododd y byddai hyblygrwydd o hyd i ymateb i'r sefyllfa ym mis Ionawr.

### **Crynodeb:**

- i. Cytunwyd ar y dull diwygiedig o ymgynghori ar yr ystod o gymwysterau a'r amseroedd diwygiedig ar gyfer ymgynghori.

## **7. Diweddariad Cyllid**

- 7.1 Cyflwynodd KP y sefyllfa ariannol ddiwedd mis Awst 2020 a'r rhagolwg ar gyfer gweddill y flwyddyn.
- 7.2 Dywedodd KP y bu gwariant o £2.98 miliwn ar 31 Awst, sef 33% o'r gyllideb. Ar wariant 'llinell wastad', byddai'r sefyllfa'n 40% o'r gyllideb. Cafodd costau cyflog a chostau rhedeg eu gwasgaru drwy gydol y flwyddyn gyda chostau rhaglenni'n gostwng yn ddiweddarach yn y flwyddyn gan achosi llwytho costau tua diwedd y flwyddyn.
- 7.3 Dywedwyd wrth yr Aelodau bod ail-ragweld yn digwydd fel rhan o'r broses fonitro. Costau cyflog oedd y prif faes newid oherwydd newidiadau mewn staffio. Roedd meysydd rhaglenni wedi'u halinio'n agos ag adroddiadau cynlluniau gweithredol ac roedd pwyntiau sbarduno yn dilyn ddiwedd mis Medi. Byddai diweddarau'r cynllun gweithredol yn llywio'r gwaith o ddiweddarau'r rhagolwg. Byddai adroddiad ar y cynllun gweithredol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau nesaf ym mis Hydref.
- 7.4 Cynhwyswyd y ffigurau ar gyfer y flwyddyn flaenorol i ddarparu cymharydd. Dosbarthwyd £680,000, 8% o'r gyllideb, 'mewn perygl' o beidio â chael ei wario. Gan dynnu allan y ddarpariaeth ar gyfer her gyfreithiol a risgiau eraill sy'n gysylltiedig â Covid-19, roedd y ffigur 'mewn perygl' yn debyg i'r ffigur yn y flwyddyn flaenorol. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r meysydd risg yn cael eu hadolygu ar y cyd â'r cynllun gweithredol.
- 7.5 Gofynnodd yr Aelodau a oedd pwysau ar y gyllideb gan Lywodraeth Cymru. Dywedwyd wrth y cyfarfod na fu unrhyw geisiadau pellach ers dechrau'r flwyddyn ariannol pan ofynnwyd i Cymwysterau Cymru nodi arbedion. Dywedodd KP wrth yr aelodau y byddai'r sefyllfa ariannol yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Rheoli Chwarterol nesaf ym mis Medi.

- 7.6 Codwyd yr angen parhaus am ddarpariaeth ar gyfer risg o her gyfreithiol. Dywedodd AS wrth y cyfarfod mai'r cyngor cyfreithiol oedd y byddai'n rhaid i unrhyw gamau i geisio adolygiad barnwrol ddechrau erbyn 17 Tachwedd fel y gellid rhyddhau'r ddarpariaeth ar gyfer eleni ar ôl y cyfnod hwnnw.

**Crynodeb:**

- i. Nododd y cyfarfod y sefyllfa ariannol ddiwedd mis Awst.

**8. Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol**

- 8.1 Dosbarthwyd Adroddiad Cynnydd drafft Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol rhwng mis Medi 2019 a 31 Awst 2020 gyda phapurau'r cyfarfod. Cytunwyd y byddai'r aelodau'n ystyried y drafft ac yn rhoi sylwadau y tu allan i'r cyfarfod a dirprwywyd yr awdurdod i lofnodi'r adroddiad i'r Prif Swyddog Gweithredol.

**Crynodeb:**

- i. Byddai'r Bwrdd yn adolygu Adroddiad Cynnydd drafft Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Medi 2019 i 31 Awst 2020 yn dilyn y cyfarfod a dirprwywyd y gymeradwyaeth derfynol i'r Prif Weithredwr.

**9. Unrhyw Fater Arall**

- 9.1 Nododd yr Aelodau'r cynllun gweithredol a'r cofrestrau risg. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd i swyddogion ystyried a oedd y risgiau i enw da mewn perthynas â phenderfyniadau 2021 yn cael eu hadlewyrchu'n llawn. Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod oedi mewn gweithgareddau a oedd yn dangos eu bod yn oren oherwydd effaith Covid-19 hefyd yn cael eu nodi fel risg.
- 9.2 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am eu cyfraniad i'r cyfarfod.